

Gêm yr ieir hapus: cyfarwyddiadau (1)

Beth sydd ei angen arnoch:

- Bocs wyau gwag i bob chwaraewr
- Un set o *siapiau wyau (1)* gyda symbolau i bob chwaraewr – trefnwch yr holl wyau sydd yr un lliw yn bentyrrau a'u rhoi yng nghanol y bwrdd
- 'Troellwr A' (wedi'i lynu ar gerdyn). Gwnewch dwll yn y canol â phensel, rhowch y bensel drwy'r twll a'i defnyddio i droelli'r cerdyn. Byddai matsien neu sgrïw bengron yn gweithio'n dda hefyd
- 'Troellwr B' (fel uchod)
- Dalen *Allwedd Troellwr B*

Sut i chwarae:

- Chwaraewch y gêm mewn grwpiau bychain o ddim mwy na chwech o chwaraewyr.
- Mae'r chwaraewr cyntaf yn troi troellwr A. Os yw'n glanio ar yr îar gawell, mae'n rhoi'r troellwr i'r chwaraewr nesaf. Os yw'n glanio ar yr îar fuarth, yna caiff y chwaraewr cyntaf droi troellwr B.
- Pan fydd y troellwr wedi glanio ar symbol, defnyddiwch allwedd troellwr B i ddarganfod beth yw ystyr y symbol.
- Yna bydd y chwaraewr yn codi'r wy sydd â'r un symbol ac yn ei roi yn ei focs wyau. Os yw un o'r wyau hyn ganddo/ganddi eisoes, mae'n rhoi'r wy yn ôl yn y pentwr ac yna tro'r chwaraewr nesaf yw hi.
- Os yw'r troellwr yn glanio ar logo Freedom Food, mae'r chwaraewr yn codi'r wy sydd â'r symbol hwnnw, NEU unrhyw wy arall y mae arno/arni ei angen.
- Yr enillydd yw'r chwaraewr cyntaf i lenwi ei focs â'r chwe wy buarth gwahanol.

